

Canllaw Ymarfer Dargyfeirio Crynodeb o argymhellion

1 Annog diwylliant o ddargyfeirio ymhlith yr holl heddlu a staff ar gyfer troseddau lefel isel.

Pam?

Pan gaiff ei gyflwyno'n gywir, gall dargyfeirio chwarae rhan allweddol wrth atal plant rhag aildroseddu yn y dyfodol.

Gweithredoedd a argymhellir:

- Cynnwys dargyfeirio yn hyfforddiant yr heddlu.
- Ffurfioli proses lle mae swyddogion sy'n goruchwyllo'r broses ddargyfeirio yn adrodd yn ôl ar ymgysylltu a chanlyniadau.
- Darparu swyddog heddlu pwrpasol i bob YJS a chyd-leoli'r swyddog o fewn yr YJS.

2 Datblygu meini prawf cymhwysedd clir a sicrhau mynediad cyfartal i ddargyfeirio.

Pam?

Gall meini prawf cymhwysedd aneglur, cyfyng neu anghyson rwystr mynediad at ddargyfeirio ac ymgysylltu â'r broses.

Gweithredoedd a argymhellir:

- Osgoi meini prawf sy'n seiliedig ar fath o drosedd neu drosedd flaenorol yn unig.
- Defnyddio'r Matrics Asesu Plentyn (*Child Gravity Matrix*) i gyfrannu at wneud penderfyniadau.
- Osgoi labelu plant yn droseddwy'r am droseddau lefel isel.
- Osgoi ehangu'r rhwyd.
- Mynd i'r afael â gwahaniaethau.
- Sicrhau bod oedolion a chyfreithwyr priodol yn ymwybodol o'r rhaglen ddargyfeirio i fynd i'r afael ag annhegwch.

3 Lleihau'r defnydd o'r ddalfa ar gyfer plant.

Pam?

Mae plant yn teimlo bod y ddalfa'n llym ac yn gosb, gan feithrin atgasedd a thanseilio ymddiriedaeth.

Gweithredoedd a argymhellir:

- Defnyddio'r ddalfa i blant dim ond pan fo angen.
- Rhoi blaenoriaeth i gyfweld plant y tu allan i'r ddalfa.

4 Datblygu proses gadarn o wneud penderfyniadau gyda'ch partneriaid.

Pam?

Mae cyfuno gwybodaeth gan sawl asiantaeth yn golygu bod plentyn yn fwy tebygol o gael y canlyniad mwyaf priodol.

Gweithredoedd a argymhellir:

- Cynnull panel penderfynu ar y cyd a sicrhau aelodaeth briodol.
- Dod â'r holl wybodaeth berthnasol i'r panel i lywio'r broses o wneud penderfyniadau.
- Canolbwyntio ar weinyddu cyflym a phroses benderfynu dryloyw.

5 Sicrhau mynediad cyflym at gymorth sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Pam?

Mae darparu cymorth yn gyflym ar ôl y drosedd wreiddiol yn debygol o olygu ei fod yn fwy effeithiol.

Gweithredoedd a argymhellir:

- Gwneud y broses atgyfeirio mor syml â phosibl.
- Hwyluso mynediad at gymorth o fewn pedair wythnos ar ôl atgyfeirio ac adolygu amseroedd aros cyfartalog yn rheolaidd.
- Gweithio gyda'r YJS a rhanddeiliaid perthnasol eraill i gysylltu plant â chymorth sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

6 Cytuno ar broses ar gyfer adolygu a chau achosion dargyfeirio.

Pam?

Gall gwneud penderfyniadau tryloyw a theg wella cydymffurfiaeth a lleihau aildroseddu.

Gweithredoedd a argymhellir:

- Sicrhau bod disgwyliadau'n glir a'u bod yn deall canlyniadau diffyg ymgysylltu.
- Cymryd ymagwedd aml-asiantaeth at ddelio â diffyg ymgysylltu.
- Datblygu proses glir ar gyfer ymgysylltu â dioddefwyr a diweddariadau.

7 Cynnal safonau uchel wrth gyflwyno'r broses ddargyfeirio.

Pam?

Mae sut rydych chi'n gwneud y broses ddargyfeirio (e.e. cyflymder, ansawdd a phriodoldeb cefnogaeth) yn bwysig iawn i leihau aildroseddu.

Gweithredoedd a argymhellir:

- Gweithredu panel craffu cadarn ar gyfer adolygu'r broses ddargyfeirio a rhannu argymhellion gyda phawb sy'n ymwneud â'i chyflwyno.
- Sicrhau bod cynrychiolydd yr heddlu o reng prif arolygydd neu uwch yn mynychu byrddau rheoli YJS.